Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid



# CYFLWR y SYSTEM

Golwg ar sut y gall ein systemau chwarae mwy o ran wrth gefnogi goroeswyr a dileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

# Rhagair



Fel Prif Weithredwr, yn aml caf fy atgoffa o ddewrder dioddefwyr ac ymroddiad y gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi. Eu profiadau nhw sydd wrth galon yr adroddiad hwn. Mae'n amlygu'r rhwystrau systematig sydd wedi creu sefyllfa amhosibl i oroeswyr. Dyma anghydraddoldeb na ddylai'r un ohonom ei dderbyn.

Fe welwn hefyd sut mae gwasanaethau sy'n gweithio mewn seilos, heb gefnogaeth trefniadau llywodraethol, mewn perygl o golli cyfleoedd ac ymateb yn anghyson. Mae dull system gyfan, un sy'n cysylltu gwasanaethau cyhoeddus ag arbenigedd, yn hanfodol os ydym am greu newid sy'n para.

Un o'r negeseuon cryfaf i mi yn yr adroddiad yw nad ymarfer ticio blwch yw hyfforddiant. Nid yw'n "rhywbeth braf i'w gael". Mae'n hanfodol. Ac o reidrwydd, dechrau'r daith yw hyn, nid y diwedd. Yr unig ffordd i gael gwir ddealltwriaeth, ymatebion cyson ac ymarfer diogel, hyderus yw drwy ymgorffori dysgu dros amser gyda chefnogaeth arweinyddiaeth, diwylliant a systemau sy'n gweithio gyda'i gilydd yn hytrach nag ar wahân.

Mewn hinsawdd ariannol heriol, mae atal ac ymyrraeth gynnar yn fwy nag anghenraid moesol, maent hefyd yn gost-effeithiol. Drwy gyfuno ein hymdrechion, buddsoddi yn y cymorth cywir a chydnabod plant fel dioddefwyr drwy eu hawl eu hunain, gallwn lunio dyfodol lle na chaiff goroeswyr fyth eu gadael heb opsiynau.

Fy ngobaith yw bod yr adroddiad hwn yn ddrych a hefyd yn fap: adlewyrchiad clir o'r sefyllfa sydd ohoni a chanllaw ar gyfer cyflawni newid sy'n para **gyda'n gilydd**.



Sara Kirkpatrick
CEO, Cymorth i Ferched Cymru

# Cyflwyniad

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol: 'Cyflwr y Sector'. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr heriau y mae sefydliadau yn y sector trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn eu hwynebu. Y gwasanaethau cymorth arbenigol hyn sydd ar flaen y gad wrth sicrhau nad yw goroeswyr yn wynebu'r epidemig ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, ers sawl blwyddyn bellach, mae systemau o gylch y gwasanaethau arbenigol yn gosod rhwystrau systemig i'r cymorth hwn. Drwy amrywiol ddulliau megis ceisiadau rhyddid gwybodaeth, tystiolaeth ac astudiaethau achos, mae Cymorth i Ferched Cymru wedi gallu casglu rhai o'r heriau y mae'r systemau'n eu gosod ar wasanaethau a'r goroeswyr maent yn eu cefnogi.

Bob blwyddyn, rydym ni'n tynnu sylw at amrywiol faterion megis heriau cyllido, capasiti ac effeithiau deddfwriaeth. Fe wyddom hefyd os ydym ni am ddileu VAWDASV yn gynaliadwy, fod yn rhaid i bob sector weithio gyda'i gilydd i fabwysiadu Dull Systemau Cyfan i gefnogi goroeswyr ac atal niwed parhaus ac yn y dyfodol. Eleni, rydym ni wedi penderfynu edrych ar y rôl y gall y rhwydwaith ehangach o sefydliadau ac adrannau y tu hwnt i'r sector ei chwarae yn hyn o beth. Mae llawn cymaint o ran gan Weithwyr Proffesiynol ag Ymddiriedaeth i'w chwarae â'r gwasanaethau arbenigol.

Mae'r gwasanaethau arbenigol wedi bod "ar eu gliniau" yn rhy hir o ganlyniad i wasanaethau statudol sy'n methu a lleihad mewn cyllid sy'n golygu bod goroeswyr yn cael eu gadael heb y cymorth sydd ei angen. Nid yw VAWDASV yn digwydd ar ei ben ei hun, ac mae llawer o oroeswyr yn profi trawma emosiynol, meddyliol a chorfforol. Anaml y bydd cyllid yn cynyddu gyda chwyddiant, ac felly mae'r gwasanaethau'n ei chael yn anodd rhoi cefnogaeth iawn a phriodol i oroeswyr sydd ag anghenion cynyddol, er gwaethaf y ffaith fod ganddyn nhw ystod eang o weithwyr proffesiynol profiadol a hynod ymroddgar. Gall goroeswyr sydd heb gael triniaeth i'w hanghenion gofal iechyd, sydd heb lety diogel i fynd iddo ac nad ydyn nhw'n teimlo'n ddigon diogel i fynd at y system cyfiawnder troseddol barhau i ddioddefef camdriniaeth, gan frwydro i  wella. Yn yr un modd, bydd plant yn fwy

tebygol o ddioddef canlyniadau bywyd negyddol yn sgil eu profiadau o drawma a diffyg cymorth amserol, priodol.

Wrth fynd i'r afael â VAWDASV, yn aml yr ymateb yw cyfeirio dioddefwyr at y system cyfiawnder troseddol. Yn anffodus, nid yw trefniadaeth y system yn gallu cefnogi goroeswyr ac felly mae'n opsiwn y mae goroeswyr yn dewis peidio manteisio arno neu maen nhw'n gollwng y broses am resymau amrywiol. Drwy ganolbwyntio ar y system cyfiawnder troseddol yn unig, rydym ni'n cydnabod ein bod yn ymdrin â VAWDASV dim ond ar ôl iddo ddigwydd, yn hytrach na mynd i'r afael â'r rhesymau pam ei fod yn digwydd.

Er ei fod yn cynnwys agweddau ar y system cyfiawnder troseddol, mae'r adroddiad hwn ar **Gyflwr y System** yn canolbwyntio ar sut y gallwn ddefnyddio Dull Systemau Cyfan i sicrhau y gall goroeswyr dderbyn ymateb wedi'i deilwra i'w hanghenion, ble bynnag y byddant yn mynd. Boed hynny'n golygu trefnu'r budd-daliadau cywir gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau neu siarad gyda'r meddyg am eu pryderon, dylai pob goroeswr allu gweithio gyda system sydd wedi'i sefydlu i ymateb i fyd lle mae VAWDASV yn bodoli, lle cydnabyddir ei fod yn annerbyniol a lle ceir llwybr effeithiol at wella a diogelwch.

# Penodau


1. Dull Gweithredu Gofal Iechyd
2. Dull Gweithredu Tai
3. Dull Gweithredu Economaidd
4. Dull Gweithredu Addysgol
5. Dull Gweithredu Cymunedol
6. Dull Gweithredu Technolegol
7. Casgliad: Dull Gweithredu Systemau Cyfan
8. Taflen Ffeithiau Ystadegau




# Dull Gofal Iechyd



Mae cyfle unigryw gan y system gofal iechyd i gefnogi goroeswyr mewn mannau diogel, yn aml i ffwrdd o'r bobl hynny o'u cwmpas a allai fod yn cyflawni niwed. Mae ysbytai, meddygfeydd lleol a chyfleusterau eraill yn gallu cyfeirio at wasanaethau cymorth a chymryd camau priodol os yw'r hyfforddiant a'r adnoddau cywir ar gael. Mae ymchwil yn dangos pan fydd goroeswyr yn estyn am gymorth, eu bod yn debygol o gysylltu â gwasanaethau iechyd, ar ôl yr heddlu.[1] Mae llawer o sefydliadau hefyd yn nodi mai meddygon teulu yw'r llinell ymateb gyntaf.[2] Mae hyn yn dangos y rôl bwysig y gall y system gofal iechyd ei chwarae wrth fynd i'r afael â VAWDASV.

Dywedodd Sefydliad Iechyd y Byd fod "trais yn erbyn menywod yn broblem iechyd fyd-eang ar raddfa epidemig".[3] Roedd yr un adroddiad, a ddynododd fod VAWDASV yn broblem iechyd cyhoeddus, yn cydnabod "nad yw gweithwyr iechyd yn gwybod sut i ymateb". Yn 2023, atgyfnerthodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i ddarparu'r modd i staff gofal iechyd allu ymateb i VAWDASV drwy enwi rhaglen **Gofyn a Gweithredu** yn flaenoriaeth allweddol.[4]

Mae rhaglen **Gofyn a Gweithredu** yn galluogi gwasanaethau cyhoeddus i adnabod ac ymateb yn briodol i VAWDASV drwy 'ymholi wedi'i dargedu' sy'n adnabod arwyddion o VAWDASV fel ysgogiad i weithiwr proffesiynol holi eu cleient a oes unrhyw rai o'r materion hyn wedi effeithio arnyn nhw. Nod y rhaglen yw atgyfeirio a chynnig ymyraethau i ddarpar oroeswyr yn seiliedig ar risg ac angen. Pan fydd ymwybyddiaeth yn codi, gallwn greu diwylliant ar draws GIG Cymru a sefydliadau cyhoeddus eraill lle mae delio â goroeswyr a'u cefnogi'n rhan o'r gwaith dydd i ddydd. Gall y gweithredoedd rhagweithiol hyn sicrhau bod goroeswyr sy'n agored i niwed yn cael cefnogaeth ar y cyfle cynharaf, yn hytrach na dibynnu ar ddatgeliadau mewn argyfwng. Mae'r cyfle i wneud ymholiadau rheolaidd yn galluogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i fanteisio ar gyfleoedd a ddaw i'w rhan drwy amrywiol apwyntiadau megis gwiriadau mamolaeth a phediatreg. Drwy raglenni fel ymyriadau IRISi[5] a Gofyn a Gweithredu, gellir atgyfeirio goroeswyr a'u cefnogi ledled Cymru.

1 Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: cynllun blynyddol cynghorwyr cenedlaethol 2024 i 2025
2 IRIS-National-Report-2020-2021.pdf
3 Violence against women: a 'global health problem of epidemic proportions'
4 Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu
5 IRIS in Wales: a success story, now sadly stalled - IRISi

Mae gan GIG Cymru gyfle penodol i fynd i'r afael ag arwyddion o'r fath drwy ymholiadau iechyd a llesiant cyffredinol a pherthynas waith y gellir ei meithrin dros apwyntiadau rheolaidd. Mae enghreifftiau o'r fath yn galluogi ymarferwyr i ganfod newidiadau mewn ymddygiad neu arwyddion eraill a allai ysgogi ymholi pellach lle bo'n briodol.

Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar hyfforddiant **Gofyn a Gweithredu** yn amrywiol ar draws GIG Cymru:

- **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys** 69.0% o staff gofal iechyd.
- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe** 13.45% o staff gofal iechyd.
- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** 56.61% o'r holl grwpiau staff.
- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** 2.77% o'r holl grwpiau staff.
- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg** 74.72% o'r holl grwpiau staff.
- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** Yn anffodus nid oedd yn ymwybodol bod hyfforddiant Gofyn a Gweithredu ar gael.

Mae'r amrywiaeth eang o ymatebion yn dangos bod anghysondeb o ran cyflwyno **Gofyn a Gweithredu** ar draws Cymru. Cysylltom ni â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i drafod eu heriau a pham fod y niferoedd mor isel ond yn anffodus nid ydynt wedi ymateb i'r ymholiadau. Yn yr un modd, buom yn holi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr pa hyfforddiant VAWDASV oedd eu staff yn ei gael, ond nid ydym wedi derbyn ymateb hyd yma.

"Bydd [Gofyn a Gweithredu] yn fy ngwneud yn fwy ymwybodol yn fy rôl weithredol ac yn fwy hyderus i weithredu. Byddaf i'n gallu trosglwyddo'r wybodaeth hon yn well i fy sefydliad."

Cyfranogwr Hyfforddi'r Hyfforddwr Gofyn a Gweithredu

"Mae brysbennu'n rhan fawr o fy rôl ac yn aml dwi'n siarad gyda goroeswyr trais domestig, felly bydd yn gymorth i allu eu cefnogi."

Cyfranogwr Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu

Gall lleoliadau gofal iechyd fod yn allweddol wrth gyfeirio goroeswyr at gymorth. Mae llawer o unigolion yn dod i'r adeiladau hyn, boed drwy fod angen triniaeth eu hunain neu i gefnogi pobl eraill. Mae cyfeirio gyda phosteri mewn ystafelloedd aros, sticeri ar gefn drysau toiled a thaflenni ar gownteri yn gallu cefnogi'r arweiniad ffurfiol a roddir gan staff. Mae hefyd yn bwysig bod cyfeirio'n berthnasol i'r ardal leol, gan gynnwys gwasanaethau yng Nghymru ac yn y gymuned. Mae Llinell

Gymorth Byw Heb Ofn ar gael yng Nghymru'n benodol ac yn y lle gorau i ddarparu cyngor sydd wedi'i deilwra i'r dirwedd yng Nghymru. Gall cynnig cyfleoedd i oroeswyr ddefnyddio ffonau mewn man preifat hefyd fod yn ddefnyddiol i'r rheini nad ydyn nhw'n teimlo'n ddiogel yn eu cartref neu wrth ddefnyddio eu ffôn eu hunain. Nid yn unig mae hyn yn hysbysebu ffynonellau cymorth, mae hefyd yn dangos bod y darparwr yn deall bod VAWDASV yn broblem dreiddiol ac efallai y bydd goroeswyr yn teimlo'n fwy cyfforddus i ddatgelu o ganlyniad i hynny.

Yn ogystal, mae angen i arferion lle mae aelodau o'r teulu a ffrindiau'n cael eu defnyddio'n amhriodol fel cyfieithwyr ddod i ben.[6] Gall defnyddio perthynas neu ffrind fel dehonglydd olygu nad yw gwybodaeth yn cael ei chyfleu'n briodol neu'n cael ei hepgor yn ddethol. Mae menywod byddar er enghraifft hyd at dair gwaith yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig, gyda chyflawnwyr yn aml yn defnyddio rhwystrau iaith fel arf rheoli.[7] Gall fod yn anodd hefyd i'r dehonglydd drafod pynciau sy'n sensitif neu'n amhriodol. Mae'n hanfodol fod dehonglwyr sydd â'r arbenigedd iawn yn cael eu darparu i gleifion i allu cyfathrebu'n briodol gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn modd amserol.

Mae Cynllun Iechyd Menywod Cymru[8] yn rhestru VAWDASV fel blaenoriaeth rhif 7 ac yn ein hatgoffa'n briodol o ganlyniadau iechyd yr epidemig hwn. Ond rydym ni'n credu y gall y gweithredu fynd ymhellach. Mae angen i addysg staff gofal iechyd ddod o'r sector arbenigol sy'n brofiadol ac yn meddu ar sgiliau uchel. Gall y sector arbenigol ddarparu cyngor wedi'i deilwra ac arweiniad yn seiliedig ar weithio mewn partneriaeth gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Bydd cael yr hyfforddiant arbenigol hwn yn gymorth mawr i sicrhau bod canfod yn digwydd ar y cyfle cynharaf, bod yr ymateb yn gefnogol ac yn anfeirniadol a bod goroeswyr yn cael eu cyfeirio at y math gorau o gymorth i'w hanghenion.

Mae goroeswyr hefyd yn ei chael yn anodd diwallu eu hanghenion eu hunain o ganlyniad i system iechyd sy'n methu. Yn anffodus, yn y flwyddyn ariannol 24-25, cafodd 51.8% o atgyfeiriadau newydd i lochesi eu gwrthod. Mae hyn yn golygu bod goroeswyr mewn risg o niwed pellach heb y lloches ddiogel y gall llety argyfwng ei darparu.

## Rhesymau dros wrthod lloches ym mlwyddyn ariannol 24-25

- 15.5% oherwydd anghenion y goroeswr o ran defnydd o gyffuriau ac alcohol.
- 16.3% oherwydd bod y gwasanaeth yn methu â chefnogi iechyd meddwl y goroeswr.
- 6.1% yn methu â diwallu anghenion hygyrchedd oherwydd anabledd.

6 Can patients use family members as non-professional interpreters in consultations? | The BMJ
7 https://www.sps.ed.ac.uk/news-events/news/study-impact-domestic-abuse-deaf-survivors-families#:~:text=Deaf%20women%20at%20three%20times%20greater%20risk%20of%20domestic%20abuse&text=Professor%20Napier%20said%3A%20%E2%80%9CDeaf%20women,Sign%20Language%20( BSL)%20resources.
8 Cynllun Iechyd Menywod Cymru


## Anghenion ychwanegol goroeswyr mewn lloches ym mlwyddyn ariannol 24-25

- Roedd angen cymorth ychwanegol ar 53.8% o oroeswyr mewn perthynas ag iechyd meddwl.
- Roedd angen cymorth ychwanegol ar 6.8% o oroeswyr mewn perthynas â chamddefnyddio alcohol, a 7.9% angen cymorth mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau.
- Roedd angen cymorth ychwanegol ar 43.4% o oroeswyr yn y gwasanaethau trais rhywiol mewn perthynas ag iechyd meddwl.
- Roedd angen cymorth ychwanegol ar 10.3% o oroeswyr yn y gwasanaethau trais rhywiol mewn perthynas â chamddefnyddio alcohol, gyda 8.8% angen cymorth mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau.
- Roedd gan 100% o oroeswyr yn y gwasanaethau cam-fanteisio rhywiol anghenion ychwanegol mewn perthynas ag iechyd meddwl.
- Roedd angen cymorth ychwanegol ar 52.5% o oroeswyr yn y gwasanaethau cam-fanteisio rhywiol mewn perthynas â chamddefnyddio alcohol, gyda 82% ag anghenion ychwanegol mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau.
- Roedd gan 26.2% o oroeswyr yn y gwasanaethau cam-fanteisio rhywiol anghenion cymorth mewn perthynas ag anabledd dysgu.

## Y ganran o oroeswyr a ymgysylltodd â gwasanaethau cymorth oedd yn uniaethu'n berson anabl ym mlwyddyn ariannol 24-25:

- Lloches: 43.9%
- Gwasanaethau cymunedol: 22.4%
- Gwasanaethau trais rhywiol: 46.1%
- Gwasanaethau cam-fanteisio rhywiol: 72.0%

Canran o atgyfeiriadau lloches newydd a gafodd eu gwrthod




Gorffennodd cynllun cyflenwi camddefnyddio sylweddau Llywodraeth Cymru yn 2022. Nod y cynllun oedd cyflawni amser aros o 20 diwrnod gwaith rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer cymorth camddefnyddio sylweddau. Yn Adroddiad Blynyddol Camddefnyddio Sylweddau 2020-2021,[9] roedd 7.9% o gleientiaid yn gorfod aros rhwng pedair a deuddeg wythnos, dros y targed o 20 diwrnod gwaith. Dim ond 15% o achosion a gafodd eu cau am fod y cleient wedi cwblhau'r driniaeth a bellach yn rhydd rhag sylweddau. Mae VAWDASV yn uwch ymhlith menywod sy'n camddefnyddio sylweddau,[10] sy'n gadael goroeswyr â dulliau ymdopi afiach ac yn agored i orfodaeth. Yn aml bydd y goroeswyr hyn yn estyn am ddulliau amgen pan fydd diffyg cymorth ar gael. Yn aml caiff cyffuriau ac alcohol eu defnyddio fel arf gan gyflawnwyr i reoli goroeswyr drwy orfodaeth.

**Os ydych chi'n brwydro gyda meddyliau am hunanladdiad neu hunananafu, mae help ar gael. Mewn argyfwng, ffoniwch 999 bob tro.**

111, opsiwn 2. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys gwasanaeth brysbennu, cymorth neu gyfeirio fel bo'n briodol, a gellir ei ddefnyddio i ymdopi ag argyfwng iechyd meddwl neu yn lle mynd i adrannau brys neu alw'r heddlu.

**C.A.L.L:** 0800 132 737 / call@helpline.wales

**Y Samariaid:** 116 123 / jo@samaritans.org / sgwrsio ar-lein: https://www.samaritans.org/how-we-can-help/contact-samaritan/chat-online/

**Llinell Gymorth Genedlaethol Atal Hunanladdiad y DU:** 0800 587 0800 / spuk.org.uk/national-suicide-prevention-helpline-uk/

9 www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-05/treatment-data-substance-misuse-in-wales.pdf
10 https://pmc.ncbi.nlm.nih.gov/articles/PMC9393579/

Mae goroeswyr VAWDASV yn fwy tebygol o brofi iechyd meddwl gwael,[11] gydag iselder, gorbryder, ac anhwylder straen wedi trawma yn arbennig o gyffredin.[12] Gall hyn arwain at ganlyniadau angheuol, gydag 1 fenyw mewn 8 yn ceisio cymryd eu bywyd eu hunain o ganlyniad i brofi cam-drin domestig.[13] Mae 33% o fenywod sy'n cael eu treisio yn ystyried hunanladdiad, ac mae 13% yn ceisio lladd eu hunain.[14] Llynedd, roedd y nifer o ddioddefwyr cam-drin domestig a gymerodd eu bywyd eu hunain yng Nghymru a Lloegr yn uwch na'r nifer a laddwyd gan eu partner am yr ail flwyddyn yn olynol.[15]

Mae'n amlwg fod ymyriadau iechyd meddwl yn gallu gwneud gwahaniaeth i oroeswyr. Gall olygu bod trefniadau cefnogaeth mwy iach yn cael eu gwneud ac y gall goroeswyr ddechrau mynd i'r afael â'u heriau gyda chymorth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ag adnoddau digonol. Gall therapi a mathau eraill o gymorth cyfannol alluogi goroeswyr i weithio drwy eu profiadau. Mae'n bwysig bod pob goroeswr yn elwa o'r cymorth a gaiff ei deilwra iddyn nhw a'u hanghenion. Gall hefyd alluogi gwasanaethau arbenigol i ddarparu'r cymorth cynnil sydd ei angen yn aml yn ystod ac yn dilyn profiadau o VAWDASV. Pan gaiff goroeswyr eu cefnogi'n briodol gan y system gofal iechyd, gall gwasanaethau arbenigol ddefnyddio eu hadnoddau'n fwy priodol ac effeithiol. Mae gwasanaethau arbenigol yn gallu darparu ymyriadau sy'n achub bywydau pan fyddant yn cael lefel digonol o gyllid ar gyfer rolau megis IDVAs, ISVAs, gweithwyr cymorth symudol, gweithwyr lloches a rolau cefnogol eraill.

"Mae'r cysylltiadau rhwng iechyd meddwl a VAWDASV yn glir. Mae'n hanfodol fod goroeswyr yn gallu manteisio ar wasanaethau sy'n seiliedig ar VAWDASV a thrawma, ar adeg ac mewn lle sy'n iawn iddyn nhw. I lawer o oroeswyr mae eu hiechyd meddwl wedi cael ei ddefnyddio fel esgus ac arf ar gyfer y gamdriniaeth a gyflawnwyd yn eu herbyn. Mae'n rhaid i ni gydnabod y gallai hyn gael effaith ar hyder unigolion i fynd at wasanaethau ac mae angen i ni ymateb yn briodol drwy wneud y gwasanaethau'n groesawgar, yn dryloyw ac yn hyblyg. Bydd gan lawer o bobl anghenion iechyd meddwl ar wahanol adegau yn eu bywyd ac mae gweithio ochr yn ochr â phartneriaid allweddol mewn iechyd, llesiant ac adferiad yn hanfodol i leihau'r stigma a chynyddu gwelededd a normaleiddio defnydd o wasanaethau arbenigol ar gyfer gwella canlyniadau iechyd meddwl ledled Cymru a'r DU."

**Kate Perry-Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Aelodaeth ac Ymgysylltu**

11 https://www.mentalhealth.org.uk/explore-mental-health/statistics/domestic-violence
12 Howard, L.M., Trevillion, K., Khalifeh, H., Woodall, A., Agnew, Davies, R., & Feder, G. (2009). Domestic violence and severe psychiatric disorders: Prevalence and interventions. Psychological Medicine, 40(6), 881–89
13 https://hopeafterharm.org.uk/other-news/the-mental-health-impacts-of-sexual-violence-and-domestic-abuse/
14 https://prevent-suicide.org.uk/womens-suicide-prevention-hub/sexual-violence/#:~:text=Research%20carried%20out%20by%20University,a%20further%2013%25%20attempt%20suicide.
15 www.vkpp.org.uk/assets/Year-4-Report_publication.pdf

Mae'n hanfodol fod goroeswyr yn cael y cymorth gofal iechyd sydd ei angen arnyn nhw er mwyn iddyn nhw allu mynd i'r afael â'r heriau hyn. Bydd system gofal iechyd cynhwysol sy'n edrych ar anghenion y goroeswr yn sicrhau bod gwasanaethau arbenigol yn gallu cefnogi goroeswyr yn briodol. Oherwydd effaith yr hyn mae goroeswr yn ei brofi, mae'r gallu i ymdrin â phroblemau croestoriadol yn hanfodol, oherwydd heb gymorth ar gyfer alcohol a chyffuriau, ni fydd gwasanaethau arbenigol megis llochesi a gwasanaethau trais rhywiol yn gallu cynorthwyo hyd eithaf eu gallu. Mae hyn yn rhyfeddol o amlwg yn y ganran uchel o atgyfeiriadau lloches a wrthodir sy'n ymwneud â'r anghenion cymorth sydd gan oroeswyr o ran defnyddio cyffuriau ac alcohol (15.5% o bob achos o wrthod lloches). Mae hyn yn arbennig o berthnasol gyda'r nifer a wrthodir wedi codi'n llym dros y pum mlynedd ddiwethaf, o 35.8% yn 2019/20 i 51.8% yn 2024/25.

Yn yr un modd, mae'r argyfwng cyllido parhaus mewn gwasanaethau dibyniaeth cyffuriau ac alcohol sydd wedi arwain at y nifer uchaf o farwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau ar gofnod (5,565 marwolaeth yn 2024)[16] a gwasanaethau cymorth iechyd meddwl yn dwysáu'n pwysau ar wasanaethau VAWDASV arbenigol. Mae'r DU yn cymharu'n anffafriol gyda gwledydd eraill gyda'r data'n awgrymu "erbyn 2023, roedd y gyfradd marwolaeth fenywaidd yn y DU [yn gysylltiedig â marwolaethau drwy wenwyn cyffuriau] 14% yn uwch na chanolrif gwledydd cyffelyb.".[17] Ni ellir anwybyddu'r cysylltiad rhwng alcohol a chamddefnyddio sylweddau (gan gyflawnwyr neu oroeswyr) a VAWDASV, gan fod yn agos i 50% o fenywod sy'n datblygu PTSD yn dilyn cael eu hamlygu i VAWDASV hefyd yn datblygu anhwylderau defnyddio sylweddau, a hefyd dan anfantais yn nhermau defnyddio gwasanaethau. Mewn 77 o achosion MARAC, roedd camddefnyddio sylweddau yn ffactor risg i 81% ohonynt.[18] Byddai'r dulliau ymdopi peryglus hyn a'r risgiau cysylltiedig yn lleihau pe bai cymorth priodol ac amserol ar gael gan wasanaethau gofal iechyd.

## Argymhellion:

- Sicrhau bod yr holl Fyrddau Iechyd yn gyfredol o ran Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu ac yn monitro cynnydd yn barhaus.
- Gwarantu bod cymorth arbenigol sy'n canolbwyntio ar y goroeswr ar gael i bob goroeswr.
- Mynd ati i weithio gyda byrddau iechyd i ddefnyddio mannau cyhoeddus i gyfeirio a hyrwyddo mynediad at wasanaethau cymorth cenedlaethol a lleol.



16 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/d eathsrelatedtodrugpoisoninginenglandandwales/2024registrations
17 https://www.health.org.uk/reports-and-analysis/briefings/uk-mortality-trends-and-international-comparisons
18 Moir E, Gwyther S, Wilkins H, Boland G. Hidden GBV: Women and substance use. Front Psychiatry. 2022 Aug 8;13:939105. doi: 10.3389/fpsyt.2022.939105. PMID: 36003973; PMCID: PMC9393579.

# Dull Tai



Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi amlygu'r rôl hanfodol sydd gan dai a chartrefu i'w chwarae wrth i oroeswyr ymadfer. Mae mynediad at lety diogel a digonol yn allweddol ar gyfer sicrhau gwydnwch yn y gwasanaeth lloches a gwasanaethau cam-drin domestig ehangach. Mae gan lety lloches le yn y system wrth gynorthwyo goroeswyr i ffoi'n ddiogel rhag amgylchedd o gam-drin ond ar hyn o bryd mae'n cael ei ddefnyddio'n amhriodol fel llety tymor hir oherwydd y rhestrau aros hir ar gyfer llety camu ymlaen. Mae lloches yn lle diogel mewn argyfwng ac nid yw wedi'i chynllunio i fod yn gartref tymor hir. Canfu adroddiad diweddaraf Shelter Cymru fod mwy na 94,000 o aelwydydd yn aros am dai cymdeithasol.[19] Mae'r un adroddiad yn tynnu sylw at y pryder ar "y cyfraddau cyflenwi presennol, y byddai'n cymryd dros 35 mlynedd i ddarparu'r cartref sydd ei angen ar bob aelwyd". Mae cysylltiad clir iawn rhwng digartrefedd a cham-drin domestig. Dywedodd 32% o fenywod digartref fod cam-drin domestig wedi cyfrannu at eu digartrefedd.[20] Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn ac yn arwain awdurdodau lleol i fod yn ymwybodol o'r croestoriad rhwng cam-drin domestig a chartrefu.[21]

Y gwirionedd anffodus i lawer yw nad yw'r cartref yn fan diogel ond yn rhywle sy'n llawn perygl, gorbryder a gofid. Bydd goroeswyr ledled Cymru yn wynebu'r dewis a yw hi'n fwy diogel aros gartref neu fentro gadael. Gall fod yn rhyfeddol o anodd a pheryglus gadael sefyllfaoedd o gam-drin a thrais hyd yn oed pan fydd opsiynau llety ar gael. Megis dechrau yw'r penderfyniad i adael. Mae'r argyfwng tai presennol, sy'n cael ei ddwysau gan gostau byw cynyddol, hefyd yn ffactor sylweddol wrth adael perthynas o gam-drin. I lawer o oroeswyr, mae diffyg arian i fforddio cartref a'r diffyg mynediad at dai fforddiadwy'n golygu nad yw ffoi cam-drin yn opsiwn, ac mae hyn yn cael ei waethygu gan y ffaith fod llawer o asiantau tai a landlordiaid yn gwrthod gosod tai ar rent i bobl ar fudd-dal tai.

Ceir rhai goroeswyr hefyd sydd angen cartref diogel nad ydynt yn cyd-fyw â'r sawl sy'n eu cam-drin. Gall goroeswyr cam-fanteisio rhywiol fod yn arbennig o fregus o ran anghenion cartrefu. Mae sefyllfaoedd o orfodaeth yn codi'n ddyddiol, gyda landlordiaid yn gofyn am ryw yn gyfnewid am rent. Pan fydd dewis goroeswyr yn gyfyngedig, mae'r senarios hyn o gam-fanteisio'n dod yn fwyfwy heriol mewn

19 https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2025/04/Waiting-For-a-Home.pdf
20 https://safelives.org.uk/resources-for-professionals/spotlights/spotlight-homelessness-and-domestic-abuse/
21 allocation-of-accommodation-and-homelessness-guidance-for-local-authorities.pdf

hinsawdd lle nad oes llety amgen ar gael. Mae opsiynau tai i oroeswyr cam-fanteisio rhywiol yn gallu bod yn arbennig o gyfyngedig. Tynnodd Grŵp Gweithredol Cymru Gyfan ar Ferched sydd wedi profi Cam-fanteisio'n Rhywiol sylw at y ffaith fod "oedolion sy'n dioddef cam-fanteisio rhywiol yn cael eu gwthio, eu gorfodi neu eu cymell i ymgymryd â gweithgareddau rhywiol gan drydydd parti neu drwy anghenraid i dalu am anghenion sylfaenol." [22]

"Mae ansicrwydd tai yn achos ac yn ganlyniad i gam-fanteisio ar oedolion yn rhywiol. Mae llawer o oroeswyr a gefnogir gan wasanaethau arbenigol ledled Cymru wedi rhannu bod cyfnewid rhyw am rywle i gysgu'n ffactor allweddol yn y cam-fanteisio cychwynnol. Mae dirfawr angen system dai gyfannol yn seiliedig ar drawma sy'n cefnogi dealltwriaeth ehangach o'r risgiau er mwyn atal goroeswyr rhag cael eu dal yn gaeth mewn cylchoedd o gam-drin a cham-fanteisio."

**Coleen Jones**
**Ysgrifenyddiaeth Grŵp Gweithredol Cymru Gyfan ar Ferched sydd wedi profi Cam-fanteisio'n Rhywiol**

Yn adroddiad diwethaf Cyflwr y Sector 2025, nodwyd bod 88% o'n aelod-wasanaethau'n teimlo bod yr argyfwng tai'n cael effaith ar y gefnogaeth sydd ar gael i oroeswyr. Ym mlwyddyn ariannol 2022-2023, roedd 117 o oroeswyr yng Nghymru mewn lloches am fwy na chwe mis "yn bennaf oherwydd diffyg llety camu ymlaen".[23] Mae strategaeth VAWDASV Llywodraeth Cymru ei hun [24] yn amlygu'r cysylltiad rhwng digartrefedd a VAWDASV. Fodd bynnag, mae'r gyfradd o gartrefi newydd yn lleihau'n raddol.[25] Gyda tharged o 20,000 o dai cymdeithasol newydd erbyn 2026 yn debygol o gael llwyddiant o 93% [26] yn unig, mae'r Llywodraeth yn annhebygol o grafu wyneb y rhestrau aros am dai.

Yn ogystal, mae llawer o oroeswyr yn dymuno cael eu cartrefu i ffwrdd oddi wrth eu hardal leol am amrywiaeth eang o resymau. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol yn defnyddio prawf lleol ac yn cefnogi'r rheini sy'n byw'n lleol neu sydd â chyswllt lleol yn unig. Er gwaethaf arweiniad gan Lywodraeth Cymru [27] a Shelter Cymru ar y ddyletswydd i gartrefu mewn amgylchiadau 'cam-drin',[28] yn aml mae goroeswyr yn ei chael yn anodd cael cymorth i'w cartrefu gan gynghorau ledled Cymru.

Mae goroeswyr heb hawl i gyllid cyhoeddus yn wynebu rhwystrau penodol wrth

22 https://business.senedd.wales/documents/s134575/RHA%2009%20-%20Welsh%20Womens%20Aid.pdf
23 Cyflwr y Sector 2024
24 Dileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategy 2022 to 2026 | GOV.WALES
25 New house building: April 2024 to March 2025 [HTML] | GOV.WALES
26 Inside Housing - News - Welsh government expected to achieve 93% of 20,000 homes target
27 Cam-drin domestig | GOV.WALES
28 https://sheltercymru.org.uk/housing-advice/homelessness/help-from-the-council/what-will-the-council-check/local-connections/

geisio cael cymorth i'w cartrefu. Mae bod heb hawl i gyllid cyhoeddus yn statws mewnfudo a osodir ar unigolion sy'n ddarostyngedig i reolaeth mewnfudo, sy'n golygu bod mynediad at y rhan fwyaf o fudd-daliadau wedi'i atal. Mae hyn yn cynnwys budd-daliadau megis credyd cynhwysol, lwfans byw i'r anabl a budd-dal tai.[29] Mae menywod â statws mewnfudo ansicr, neu y mae eu statws mewnfudo yn ddibynnol ar briod neu gyflogwr, yn aml mewn risg uwch o drais a cham-fanteisio. Maen nhw'n wynebu amgylchedd gelyniaethus drwy wiriadau mewnfudo a gynhelir mewn lleoliadau gofal iechyd, mamolaeth, addysg a thai; cânt eu hatal rhag cael gwarchodaeth a chymorth oherwydd eu statws o fod heb hawl i gyllid cyhoeddus ac maen nhw'n wynebu risg gwirioneddol o gael eu dal a'u hallgludo yn hytrach na'u cynorthwyo os ydyn nhw'n adrodd am gam-drin. Yn aml bydd camdrinwyr yn manteisio ar yr amgylchedd hwn drwy eu rheoli a'u brawychu i beidio â cheisio cymorth. Mae'r garfan hon o fenywod hefyd yn wynebu rhwystrau at geisio gwarchodaeth, cymorth a gwasanaethau arbenigol, oherwydd diffyg cyllid yn y sector, neu drwy gael eu hynysu, rhwystrau iaith a diwylliannol. Mae ofn cael eu hallgludo hefyd yn gallu bod yn rhwystr i fenywod rhag ceisio ffyrdd eraill o gael cymorth.

Oherwydd diffyg dealltwriaeth ymhlith swyddogion cymorth tai ynghylch y cyfrifoldebau y darperir ar eu cyfer yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae llawer o oroeswyr heb hawl i gyllid cyhoeddus yn methu â chael y cymorth y mae ganddyn nhw hawl iddo. Er gwaethaf camddealltwriaeth cyffredin, mae lle sylweddol i sicrhau bod goroeswyr heb hawl i gyllid cyhoeddus yn cael llety diogel a chymorth. Mae hyn yn golygu bod goroeswyr yn gyfyngedig o ran y cymorth sydd ar gael, yn ariannol ac o ran pwy allan nhw gysylltu â nhw am help.

Byddai swyddogion tai yn cael budd mawr o hyfforddiant er mwyn teimlo eu bod yn gallu cefnogi goroeswyr VAWDASV. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys cymorth tai yn eu Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae goroeswyr yn debygol iawn o fod angen gwasanaethau swyddog cymorth tai. Ceir tystiolaeth o hyn yn y data gan Linell Gymorth Byw Heb Ofn. Ym mlwyddyn ariannol 2024-25, roedd 3% o'r holl alwadau gan oroeswyr yn gofyn am gymorth gyda llety argyfwng (nid lloches) a 2% yn gofyn am lety nad oedd yn argyfwng. Gallai cynnwys hyfforddiant yn y fframwaith, megis Gofyn a Gweithredu fel y crybwyllwyd uchod, gynorthwyo swyddogion cymorth tai mewn ymholiadau rheolaidd ac wedi'u targedu sy'n chwilio am gyfleoedd i gefnogi goroeswr heb i'r goroeswr orfod mynd ati i godi'r pwnc. Gall canlyniadau cadarnhaol, fel y nodwyd yn yr adroddiad Ymarferydd Rheng Flaen Gofyn a Gweithredu,[30] olygu bod modd adnabod arwyddion o sefyllfaoedd a allai gynnwys cam-drin.

29 I gael rhagor o wybodaeth am ba gyllid cyhoeddus a gynhwysir, gweler: Public funds - GOV.UK
30 ask-and-act-role-frontline-practitioner.pdf

Yn anffodus, er gwaethaf blynyddoedd o ymgyrchu, mae Deddf Rhentu Tai (Cymru) 2016 yn parhau i fod yn her yn y sector VAWDASV. Er gwaethaf cyfarfodydd niferus gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, mae Cymorth i Ferched Cymru wedi gweld diffyg cynnydd ar fynd i'r afael â'r mater hwn. Oherwydd yr argyfwng tai, mae llawer o oroeswyr yn gorfod treulio mwy na chwe mis mewn llety arbenigol. Mae hyn wedi arwain at lawer yn methu dan ddarpariaethau'r Ddeddf. Er bod y darpariaethau hyn yn cynnig diogelwch uwch i bobl sy'n rhentu ynghyd â sicrwydd tenantiaeth, mae'n cael effaith ar lety lloches sy'n peri pryder. Ni fwriedir i lety lloches fyth i fod yn 'gartref' ac mae yno i gefnogi goroeswyr ar adegau o argyfwng. Gwelir maint ei angen yn y ffaith fod 17% o oroeswyr yn gofyn i gael eu cyfeirio at loches yn Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, gyda 3% arall angen atgyfeiriadau lloches uniongyrchol gan y llinell gymorth ei hun. Gan fod diffyg llety tymor hir, a elwir yn llety 'camu ymlaen' a fyddai'n darparu cartref priodol i oroeswyr, mae llawer yn aros mewn lloches ymhell ar ôl i'r angen am lety ddod i ben. Ceir amgylchiadau pan fydd angen i ddarparwr lloches symud goroeswr i leoliad arall.[31] Mae gorfod rheoli contractau meddiannaeth newydd yn gosod baich gweinyddol ac ariannol ar ddarparwyr gwasanaethau arbenigol sy'n ceisio cydbwyso anghenion diogelu. Mae hyn yn gadael y goroeswyr a'r staff mewn limbo tra bo'r materion cyfreithiol hynny'n cael eu datrys.

> "Nid gormodiaeth yw dweud ei fod yn fater o fywyd neu farwolaeth... Mae gennym ni fam a phlant mewn perygl uniongyrchol o niwed, ac rydyn ni'n eu hebrwng i ffwrdd yng nghanol y nos. Mae angen i chi allu gwneud hyn ac mae angen i chi allu cefnogi'r teulu drwy hyn, ond yn hytrach mae'r staff mewn lloches sydd eisoes yn gorweithio yn treulio'r diwrnod cyfan ar y ffôn yn ceisio cael estyniadau yn lle darparu'r cymorth angenrheidiol."
>
> **Darparwr lloches arbenigol**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dau adroddiad ar y gwerthusiad o Ddeddf Rhentu Tai (Cymru) 2014. Mae'r adroddiad Cam 2[32] yn amlygu pryderon gan bob lloches a fu'n cymryd rhan yn yr adolygiad. Dywed yr adroddiad "Nid oedd pob un o'r saith cyfranogwr sy'n gweithio yn y sector llochesi yn teimlo yr ymgynghorwyd â nhw'n ddigonol yn ystod camau cynllunio'r Ddeddf a dywedasant na chymerwyd eu pryderon o ddifrif pan ymgysylltwyd â nhw. Roedden nhw hefyd yn cwestiynu pam y rhoddwyd esemptiad i lety Gwely a Brecwast, ac nid llochesi. Byddent yn dal i groesawu'r esemptiad hwn". Mae Cymorth i Ferched Cymru yn aros yn eiddgar am gam olaf y gwerthusiad.

31 Trafodir y rhesymau hyn yn fanwl yn ein briffiad: Welsh-Womens-Aid-Briefing-on-The-Renting-Homes-Wales-Act-2016.pdf
32 Renting Homes (Wales) Act Evaluation: Phase 2 report

Argymhellion:

- Esemptiad i lochesi yn Neddf Rhentu Tai (Cymru) 2016.
- Cael gwared â statws ‘Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus’ i oroeswyr VAWDASV.
- Mynd i’r afael â’r Argyfwng Tai ar unwaith i sicrhau bod goroeswyr yn gallu symud o lety argyfwng i gartref tymor hir.
- Darparu hyfforddiant Gofyn a Gweithredu i’r holl Swyddogion Cymorth Tai.





# Dull Gweithredu Economaidd

Mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar oroeswyr, gwasanaethau cymorth arbenigol a sefydliadau trydydd sector sydd wedi'u sefydlu i gefnogi'r rheini y mae VAWDASV yn effeithio arnyn nhw. Mae 61% o aelwydydd yn y DU yn profi costau byw uwch[33] o'i gymharu â 96.4% o oroeswyr.[34] Mae costau cynyddol cyflogaeth, biliau tanwydd a ffioedd eraill hefyd yn golygu bod cyllidebau llochesi'n cael eu gwasgu gyda'r gwasanaethau'n cael eu gor-ymestyn.

Mae cyflawnwyr yn defnyddio'r argyfwng costau i'w mantais eu hunain. Dywedir wrth oroeswyr am roi eu trefniadau cyllid yn nwylo rhywun arall, ar ôl mynd i ddyled heb eu cydsyniad a chael eu gorfodi i aros mewn sefyllfaoedd peryglus am eu bod yn ofni ansicrwydd ariannol yn y dyfodol. Wrth edrych ar fynd i'r afael â VAWDASV, mae angen hefyd i ni gydnabod y canlyniadau ariannol ac economaidd niweidiol hyn.

Mae Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn cydnabod cam-drin economaidd fel unrhyw ymddygiad sy'n cael effaith sylweddol a niweidiol ar allu unigolyn i wneud y canlynol: caffael, defnyddio neu gynnal arian neu eiddo arall (megis ffôn symudol neu gar) neu gael nwyddau (megis bwyd a dillad) neu wasanaethau (megis cyfleustodau fel gwresogi). Mae'r Ddeddf hefyd yn cydnabod bod cam-drin economaidd yn gallu digwydd ar ôl gwahanu. Mae Surviving Economic Abuse wedi canfod bod 1 fenyw mewn 7 yn y DU wedi profi cam-drin economaidd gan bartner cyfredol neu gynbartner.

Mae camdrinwyr yn manteisio ar drefniadau llywodraethol mwyn achosi mwy o niwed. Un o'r systemau hyn yw'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant. Mae Cynhaliaeth Plant yn cwmpasu'r ffordd y caiff costau byw plentyn eu talu pan nad yw un o'r rhieni'n byw gyda'r plentyn. Gall y naill riant neu'r llall agor achos gyda'r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant pan fydd wedi gwahanu oddi wrth y rhiant arall neu os nad ydynt erioed wedi bod mewn perthynas. Mae'r gwasanaeth yn gallu cyfrifo taliadau a threfnu taliadau os yw rhiant yn peidio â thalu.[35] Fodd bynnag, mae namau yn y system.

33 Public opinions and social trends, Great Britain - Office for National Statistics
34 Cost-of-Living-Crisis-Impact-on-Survivors-of-DA.docx.pdf
35 I gael rhagor o wybodaeth ar y gwasanaeth hwn, gweler ein canllaw i oroeswyr: Child Maintenance Service Guide for Survivors.pdf

> “Nifer o weithiau mae’r Gwasanaeth wedi gofyn i fi gynnal yr ymchwiliad ar fy nghyn ŵr. Nawr… roedd yn ŵr oedd yn cam-drin, a ddylwn i ddim gorfod gwneud hynny”.
>
> **Tystiolaeth goroeswr**

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn falch fod Llywodraeth y DU yn edrych ar newid y ffordd y mae Taliadau Cynhaliaeth Plant yn cael eu casglu a’u trosglwyddo. Fodd bynnag, rydym ni’n bryderus fod nifer o gyfleoedd wedi’u colli i sicrhau bod goroeswyr cam-drin domestig, trais rhywiol a cham-drin economaidd yn cael eu gwell gwarchodaeth ac ystyriaeth.

Mae ceisiadau i’r Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant wedi bod yn cynyddu, ond daw hyn gyda chost i’r goroeswr. Er y dylai pob goroeswr cam-drin domestig allu defnyddio’r gwasanaeth Casglu a Thalu, mewn gwirionedd maen nhw’n derbyn gwybodaeth anghyson ac yn wynebu meini prawf cymhwyso aneglur. Codir 2% fesul rhiant ar oroeswyr sy’n dewis Casglu a Thalu, system sydd wedi’u chynllunio i’w gwarchod rhag cyswllt uniongyrchol gyda’r camdriniwr. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o 4% yn cael ei dynnu o’r arian y bwriedir iddo gefnogi plentyn, sy’n cyfateb i dreth ar ddiogelwch.

Rydym ni wedi cysylltu â’r Adran Gwaith a Phensiynau a’r Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau am y materion hyn ac ar ddyddiad cyhoeddi hwn, rydym ni’n dal i aros am ymateb. Byddwn yn parhau i geisio cysylltu i drafod y materion hyn.

Gellir addasu’r ffordd y caiff budd-daliadau eu cyflwyno hefyd er mwyn cefnogi goroeswyr yn well. Mae cyplau sy’n byw gyda’i gilydd yn cael eu rhoi yn awtomatig ar gyd-hawliad. Gall hyn fod yn broblematig i oroeswyr. Mae cael cyfrif ar y cyd yn galluogi cyflawnwyr i reoli’r cyllid ac fe wyddom mai dim ond 17% o daliadau a wneir yn enw’r menywod mewn achosion o gyfrif ar y cyd.[36] Ar hyn o bryd nid oes gwybodaeth ar faint o geisiadau rhanedig a wneir felly mae’n amhosibl asesu a yw’r Adran Gwaith a Phensiynau’n cefnogi goroeswyr yn briodol. Er mwyn rhoi ystyriaeth iawn i VAWDASV, byddai’n fuddiol bod hawliadau’n cael eu gwahanu’n awtomatig rhwng cyplau. Byddai hyn yn golygu nid yn unig bod gan oroeswyr reolaeth ariannol awtomatig dros eu cyllid eu hunain ond hefyd byddai’n golygu gallu osgoi gorfod datgelu cam-drin cyn iddyn nhw fod yn barod.

Mae delio gyda VAWDASV yn parhau’n ymdrech hynod ddrud i’r goroeswyr dan sylw. Mae gadael cyflawnwr, dechrau bywyd o’r newydd unwaith eto a gwneud y trefniadau cywir o ran cyflogaeth, gofal plant neu drefniadau eraill yn arwain at

36 Universal Credit and domestic abuse - Work and Pensions Committee - House of Commons

leihad mewn cyllid nad oes gan y goroeswyr o bosibl. Mae cronfa hyblyg y Swyddfa Gartref[37] wedi mynd peth o'r ffordd i leddfu hynny, fodd bynnag mae cyllid i wasanaethau rheng flaen yn gyfyngedig. Ni chaiff y gronfa ei chyflenwi dros flynyddoedd lluosog, sy'n ei gwneud yn anodd i ddarparwyr ragweld a fydd y gronfa'n dal i fodoli yn y dyfodol. Mae Surviving Economic Abuse wedi argymell y dylai hyn gyfrif at o leiaf £2 filiwn o gyllid.[38]

Mae'n amlwg fod llawer o gyfleoedd yn bodoli i symud baich ariannol VAWDASV i sefydliadau'r llywodraeth sydd â'r gallu i ddiwygio systemau i ymgorffori a chefnogi goroeswyr yn well.

### Argymhellion:

- Dileu'r ffi i ddefnyddio gwasanaethau Casglu a Thalu ar gyfer y Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant.
- Gwahanu taliadau Credyd Cynhwysol i'r holl ddefnyddwyr, beth bynnag yw eu trefniadau byw.
- Sicrhau bod holl weithwyr rheng flaen yr Adran Waith a Phensiynau'n ymwybodol o gymorth arbenigol VAWDASV a'u bod yn gallu cyfeirio'n briodol.



37 Flexible Fund - Women's Aid
38 Counting-the-Cost-report-Surviving-Economic-Abuse-July-2025.pdf



# Dull Gweithredu Addysgol

Heb addysg, fyddwn ni byth wir yn gallu dileu trais yn erbyn menywod a merched. Mae ffocws ar gefnogi goroeswyr yn dilyn digwyddiad yn unig yn naturiol yn derbyn y bydd yn digwydd. Mae angen i ni sicrhau bod dulliau o fynd i'r afael â VAWDASV yn cael eu sefydlu sy'n rhoi sylw i atal yn ogystal â chefnogaeth i oroeswyr.

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan bod plant a phobl ifanc yn ddioddefwyr yn eu hawl eu hunain. Eto i gyd mae'r Gronfa Plant y mae Cam-drin Domestig wedi Effeithio Arnynt wedi'i thorri o'r gwaith yr oedd Cymorth i Ferched Cymru yn ei wneud i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cefnogaeth ac yn cael eu cynnwys wrth ymdrin â VAWDASV. Mae'r cyllid pwysig hwn yn dod i ben yn llwyr ym mis Mawrth 2026 ledled Cymru a Lloegr. Mae'n bwysig fod unrhyw gyllid pellach yn cydnabod bod plant a phobl ifanc yn ddioddefwyr yn eu hawl eu hunain, a rhaid i'r llywodraeth gefnogi gwasanaethau yn ariannol, yn ogystal ag mewn polisi a deddfwriaeth.

Mae cyllid ar gyfer gwasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc hefyd yn debygol o brofi heriau ariannol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ganolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar, ond nid yw hynny'n gynaliadwy i lawer o'r gwasanaethau ac mae cyllido tymor byr yn golygu eu bod yn fwy tebygol nag erioed o orfod troi goroeswyr i ffwrdd. Mae hyn yn tanseiliio nod Llywodraeth Cymru a hefyd yn cael effaith ar recriwtio a chadw staff. Rhaid blaenoriaethu cyllid cynaliadwy tymor hir os ydym ni am ymgysylltu'n briodol gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru i ddiwallu eu hanghenion fel goroeswyr.

Rhaid peidio â tanddatgan effaith VAWDASV ar blant a phobl ifanc. Mae mynd drwy brofiad mor niweidiol ar oedran ifanc yn effeithio ar oroeswyr drwy gydol eu bywyd. Gall hefyd gysylltu â'r ffordd maen nhw'n datblygu perthnasoedd. Ymhlith goroeswyr oedd wedi profi cam-drin domestig cyn iddyn nhw fod yn 18 oed, roedd 19.7% wedi profi cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar adeg yr arolwg, o'u cymharu â 6.1% o'r rheini nad oedd wedi profi cam-drin rhywiol yn blentyn.[39] Mae goroeswyr sydd wedi profi VAWDWASV ar oedran ifanc (gan gynnwys babanod) hefyd yn ei chael yn anodd creu ymddiriedaeth ac ymlyniad diogel.

39 Abuse during childhood in England and Wales - Office for National Statistics

Fe wyddom fod bechgyn ifanc yn arbennig o agored i fabwysiadu agweddau problematig gan ddylanwadau allanol, yn ogystal â bod yn oroeswyr eu hunain. Gallai hyn fod yn y cartref, gyda'u ffrindiau neu ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'n bwysig cefnogi pobl ifanc i ddatblygu agweddau iachus at ei gilydd a sicrhau bod sgyrsiau'n seiliedig ar drawma. Cafodd y cysyniad hwn lawer o sylw yn dilyn cyfres Adolescence ar Netflix. Fodd bynnag roedd y sgwrs yn eithaf cyfyngedig. Mae'r gofod ar-lein yn prysur ddod yn lle i gyflawnwyr weld eu cam-drin yn cael ei ddilysu, ac mae dynion ifanc a bechgyn yn cael eu radicaleiddio gan ddylanwadau, algorithmau ac ideolegau problematig ar y cyfryngau cymdeithasol, yn y 'manosffer' sy'n normaleiddio ac yn hyrwyddo gwreig-gasineb a cham-drin.

Yn 2022, gwnaeth Llywodraeth Cymru addysg perthynas a rhywioldeb yn orfodol. Roedd hyn yn cynnwys pynciau'n ymwneud â pherthnasoedd a hunaniaeth, iechyd rhywiol a llesiant a grymuso, diogelwch a pharch. Rhaid i ysgolion a sefydliadau addysgol eraill gyflwyno'r sesiynau hyn mewn ffordd sy'n seiliedig ar drawma a bod yn ymwybodol y gallai datgeliadau ddigwydd a rhaid cymryd camau diogelu a chyfeirio priodol. Fodd bynnag mae'n anodd dweud pa mor gynhwysfawr yw'r addysg hon. Ceir data cyfyngedig, os o gwbl, ar yr ymdrechion a wneir i sicrhau bod plant a addysgir yn y cartref yn derbyn addysgperthynas a rhywioldeb. Mae'n bwysig i Estyn chwarae rhan yn cefnogi ysgolion i ddarparu addysg perthynas a rhywioldeb gyson ledled Cymru.

I lawer, gallai ysgolion hefyd fod yn fan diogel i ffwrdd o'r cartref. Mae gan yr holl staff gyfrifoldeb i ddiogelu a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel. Mae'n bwysig fod staff yn cael amser ac adnoddau i allu cefnogi'r gwaith hwn. Rhaid darparu'r hyfforddiant diweddaraf ar VAWDASV a'r croestoriad gyda phlant a phobl ifanc. Yn ogystal â staff gofal iechyd, mae'n rhaid i staff hefyd gwblhau hyfforddiant Gofyn a Gweithredu a chânt eu blaenoriaethu yn yr un modd yn y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod yr holl ddiogelu'n cael ei gwblhau'n gynhwysfawr, i sicrhau bod methiannau systematig yn cael eu hosgoi ac y ceir cyfleoedd i ymyrryd.[40] Mae'n hanfodol ein bod yn dysgu o'r gwersi a gafwyd yn Adolygiad Ymarfer Plant Gwynedd a sicrhau bod diwylliannau sy'n caniatáu cam-drin yn cael eu dileu.

40 Gwynedd Child Practice Review – North Wales Safeguarding Board

Argymhellion:

- Sicrhau bod yr holl staff addysgu'n gyfredol gyda Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu a'u bod yn cael yr amser a'r adnoddau i wneud hynny.
- Ailsefydlu cyllid sydd wedi'i golli drwy ddileu'r Gronfa Plant y mae Cam-drin Domestig wedi Effeithio Arnynt.
- Sicrhau bod addysg perthynas a rhywioldeb yn cael ei darparu i holl blant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys y rhai a gaiff eu haddysgu yn y cartref.



# Dull Gweithredu Cymunedol



Mae Cymru lle mae pob un goroeswr yn gallu troi at y bobl o'u cwmpas am gymorth yn Gymru sydd wir yn deall VAWDASV. Gyda deddfwriaeth flaengar Llywodraeth Cymru, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, mae gennym ni ymrwymiadau polisi sy'n edrych ar sicrhau bod VAWDASV yn cael ei flaenoriaethu nid yn unig yn y strategaeth ei hun, ond hefyd drwy waith traws-lywodraethol drwy fyrddau partneriaeth cenedlaethol, hyfforddiant gorfodol fel y nodwyd uchod a chyfres o amcanion eraill sy'n bwriadu sicrhau bod Cymru yn "saffach nag unrhyw le arall i fod yn fenyw".[41]

Nid yw goroeswyr bob amser yn dewis llwybrau traddodiadol i ddatgelu eu profiadau. Gall perthnasoedd o ymddiriedaeth ddatblygu gyda'u meddyg teulu, person trin gwallt, neu hyd yn oed gydweithwyr. Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi gallu cyflwyno prosiect Gofyn i Fi a meithrin cymuned wych o eiriolwyr grymus. Mae prosiect Gofyn i Fi yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth i gynghreiriaid cymunedol gan roi'r offer iddynt allu cefnogi'r rheini sy'n profi VAWDASV. Yn dilyn y cwrs, mae aelodau cymunedol yn rhydd i dreulio cymaint neu gyn lleied o amser ar ymgyrchu ar hyn ag y dymunant.

Mae bod â chymuned sydd wir yn deall VAWDASV a'i effaith yn golygu meithrin Cymru sydd eisoes yn ymwybodol o'r rhwystrau y mae'n rhaid i oroeswyr eu hwynebu. Mae'r gymuned honno'n estyn i mewn i'r gweithle. Mae 21% o fenywod cyflogedig yn cymryd amser yn rhydd o'r gwaith oherwydd cam-drin domestig ac mae 2% yn colli eu swyddi o ganlyniad uniongyrchol i gael eu cam-drin.[42] Roedd pedair o bob pum menyw wedi profi aflonyddu rhywiol yn y gweithle ei hun. Rhaid i ni ehangu ein hymwybyddiaeth o VAWDASV a chofio nad yw'n digwydd "y tu ôl i ddrysau caeedig" yn unig. Ceir sawl math o VAWDASV a gwreig-gasineb sydd wedi cael rhyddid i dyfu yn ein gweithleoedd, mannau cyhoeddus a rhwydweithiau cymdeithasol.

Mae llawer o leoedd ar gael y gall goroeswyr fynd iddynt am gymorth ar wahân i'r heddlu. Gallai hyn amrywio o staff yn y ganolfan waith, swyddfa Aelod Seneddol neu Aelod o'r Senedd neu undeb llafur. Gall undebau llafur yn benodol chwarae rôl bwysig wrth fynd i'r afael â VAWDASV. Yn aml maent yn fannau cyfrinachol a gall

41 Violence against women, domestic abuse and sexual violence: strategy 2022 to 2026 [HTML] | GOV.WALES
42 Domestic Abuse and Its Impact in the Workplace

cynrychiolwyr undebau llafur chwarae rôl drwy fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol yn y gweithle. Mewn partneriaeth gyda Cymorth i Ferched Cymru mae TUC Cymru wedi datblygu Pecyn Cymorth Aflonyddu Rhywiol[43] a nifer o adnoddau ac asedau sy'n cyfeirio ac yn cefnogi'r rheini sy'n profi aflonyddu rhywiol yn y gweithle. Rhaid i undebau llafur sicrhau bod eu cynrychiolwyr i gyd wedi'u grymuso i fynd i'r afael â'r mater hwn heb ddibynnu ar hyrwyddwyr penodol yn unig. Fodd bynnag gall y rheini sy'n dymuno cynyddu eu gwybodaeth fanteisio ar ein cyrsiau hyfforddi ni ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol ag Ymddiriedaeth sy'n codi sgiliau unigolion i allu adnabod a deall VAWDASV yn well a'u grymuso i ymateb mewn amgylchedd proffesiynol.[44]

Mae llawer o ymgyrchoedd yn gweithio ar ddarparu mannau diogel a llwybrau cynnil i oroeswyr geisio cymorth, fel ymgyrch "Good Night Out". Mae ymgyrchoedd fel Good Night Out yn gadael i gwsmeriaid ofyn am gymorth gan staff mewn bar heb orfod treulio amser yn esbonio'r broblem na rhoi gwybod i unrhyw drydydd parti posibl. Mae ymgyrchoedd fel hyn yn galluogi unigolion perthnasol i ddod ymlaen a hyfforddi gweithwyr proffesiynol yn yr economi nos ar sut i ymateb, ond mae hefyd yn ddibynnol ar y person sy'n teimlo'n anniogel i gamu ymlaen.

Mae dulliau eraill o gefnogi goroeswyr mewn mannau cyhoeddus, megis Hyfforddiant Ymyrryd mewn Sefyllfaoedd Niweidiol, yn grymuso cymunedau i ymyrryd yn rhagweithiol i atal trais a cham-drin. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar ddamcaniaeth normau cymdeithasol a'r bwriad yw helpu unigolion i adnabod sefyllfaoedd problematig, cymryd cyfrifoldeb ac ymyrryd yn ddiogel. Nod y gweithdy Ymyrryd mewn Sefyllfaoedd Niweidiol yw dysgu myfyrwyr sut i adnabod cam-drin domestig, trais rhywiol ac aflonyddu rhywiol. Mae'n annog myfyrwyr i herio ymddygiad amhriodol yn ddiogel ac yn cynnig strategaethau ymarferol i wneud hyn.[45] Mae'r rheini sydd wedi derbyn Hyfforddiant Ymyrryd mewn Sefyllfaoedd Niweidiol yn dangos gwell tebygolrwydd o ymyrryd a newidiadau cadarnhaol mewn agweddau at drais rhywiol a cham-drin domestig.

"Roedd yn gwneud i ti deimlo nad oedd yn rhywbeth enfawr oedd angen i ti ei wneud. Doedd e ddim fel pe baen nhw'n ailddyfeisio'r olwyn neu'n gwneud rhywbeth fyddai'n newid y noson yn llwyr, roedd yn rhywbeth bach iawn, rhywbeth disylwedd ar noson allan, ac roedd dim ond dweud ychydig o eiriau o bosibl yn gallu newid bywyd rhywun os byddai pethau'n dwysau."

**Adborth ar Hyfforddiant Ymyrryd mewn Sefyllfaoedd Niweidiol**[46]

43 [Sexual Harassment in the workplace | TUC]
44 [Trusted Professional : Welsh Women's Aid]
45 Ceir rhagor o wybodaeth am hyn a hyfforddiant arall sydd ar gael gan Cymorth i Ferched Cymru yn ein llyfryn: [WWA Training Brochure 2024-25]
46 [Bystander-Initiative-Report.pdf]

Mae gan glybiau chwaraeon a chyrchfannau hamdden eraill rôl benodol i'w chwarae wrth fynd i'r afael â VAWDASV o gylch plant a phobl ifanc. Yn y mannau hyn, mae cyfle i weithwyr ieuenctid feithrin perthynas waith gadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc. Fodd bynnag, does dim deddfwriaeth yng Nghymru ynghylch diogelu mewn clybiau chwaraeon a chlybiau ffydd heb gysylltiad.[47] Mae'r cyfleusterau hyn yn cynnig cyfle i ymdrin ag anghenion diogelu os yw goroeswr ifanc yn teimlo'n ddigon diogel i ddatgelu. Yn eu maniffesto,[48] tynnodd Comisiynydd Plant Cymru sylw at yr angen am gamau brys i lenwi'r bwlch hwn mewn deddfwriaeth i sicrhau bod pob man yn ddiogel i blant a phobl ifanc.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn falch o'n hymgyrch ar ymgysylltu â'r gymuned fyddar a chodi ymwybyddiaeth o'u profiadau o VAWDAV. Rydym ni'n cynnig hyfforddiant i wasanaethau arbenigol i'w galluogi i gael gwell gwybodaeth ynghylch cefnogi ac ymateb i oroeswyr byddar. Mae 22 o fenywod byddar mewn perygl o ddioddef cam-drin domestig bob dydd ac adroddodd 27.5% o oedolion byddar eu bod wedi cael eu cam-drin yn emosiynol yn ystod eu bywyd.[49] Mae'n bwysig sicrhau bod gan wasanaethau ddigon o arian ac adnoddau i allu cefnogi goroeswyr byddar yn briodol. Mae'n edrych yn debygol y bydd Bil Iaith Arwyddo Prydain (Cymru) yn gwreiddio Iaith Arwyddo Prydain (BSL) yng Nghymru ac yn sicrhau bod mynediad priodol ar gael i bobl fyddar. Fodd bynnag, bydd hyn yn berthnasol i sectorau'r llywodraeth yn unig. Dylai gwasanaethau cymorth iaith priodol fod ar gael yn rhwydd ledled Cymru er mwyn grymuso goroeswyr i adrodd eu straeon eu hunain a datgelu VAWDASV mewn amgylchedd diogel.

"Yr hyn sydd ei angen ar y gymuned Fyddar yw dealltwriaeth gref o'r mathau gwahanol o gam-drin domestig a sut i gyfeirio goroeswyr at gymorth priodol. Mae'n hanfodol fod goroeswyr Byddar yn cael yr un mynediad at gyfathrebu a dealltwriaeth â goroeswyr sy'n gallu clywed. Yn y gorffennol cafwyd achosion lle'r oedd defnyddwyr BSL yn defnyddio aelodau o'r teulu yn hytrach na dehonglwyr BSL cymwysedig yn ystod cyfarfodydd neu gyfweliadau, sy'n amhriodol ac yn anniogel, er bod hyfforddiant ac ymgysylltu wedi helpu i wella'r broblem hon. I gefnogi defnyddwyr BSL, mae Llinell Gymorth Byw Heb Ofn yn cynnig opsiynau cyfathrebu hygyrch gan gynnwys Convo VRS, testun, sgwrsio gwe ac ebost. Er gwaethaf cynnydd hwn hyn, mae gwaith sylweddol i'w wneud ledled Cymru i sicrhau mynediad cyfartal at ddehonglwyr, darllenwyr gwefusau a chymorth cyfathrebu arall i ddefnyddwyr BSL."

**Kate Evans**
**Swyddog y Gymuned Fyddar**


47 G.2: Current framework for oversight | IICSA Independent Inquiry into Child Sexual Abuse
48 Our Manifesto for Children and Young People: The commitments we want political parties standing in the 2026 Senedd elections to make for children and young people - Children's Commissioner for Wales
49 Domestic Abuse Information and Service Details - SignHealth

Mae VAWDASV yn treiddio drwy fywydau pob math o bobl, ond mae'r rheini sydd ar yr ymylon yn wynebu heriau a bygythiadau penodol yn enwedig wrth geisio cymorth. Ni wnaeth 61% o oroeswyr LHDT+ geisio cymorth gan wasanaethau yn dilyn achos penodol o gam-drin gan aelod o'r teulu neu bartner/cynbartner.[50] Roedd yr adroddiad gan Galop yn nodi bod "y rhan fwyaf o oroeswyr LHDT+ yn delio gyda'u profiadau ar eu pen eu hunain, a doedd llawer o'u plith ddim yn gwybod bod cymorth ar gael iddynt".

Mae hwn yn brofiad a rennir yn anffodus gan fenywod sy'n fudwyr, sy'n llai tebygol o geisio cymorth mewn amgylcheddau polisi gelyniaethus.[51] Pan fydd menywod sy'n fudwyr yn ceisio cymorth, mae diffyg dealltwriaeth pryderus am y problemau sy'n eu hwynebu.[52] Mae cymunedau ymyledig yn wynebu cynnydd mewn hiliaeth, ansicrwydd a rhwystrau croestoriadol sy'n golygu bod cael cymorth yn anghymesur o anodd. Amcangyfrifir bod 32,000 o oroeswyr yng Nghymru a Lloegr yn dewis peidio â chysylltu i gael cymorth ond cawsant eu hatal rhag gwneud hynny o ganlyniad i'w statws heb hawl i gyllid cyhoeddus.[53] Fe wyddom fod cyflawnwyr wedi defnyddio statws mudo i reoli drwy orfodaeth a rhybuddio goroeswyr rhag ceisio'r cymorth sydd ei angen.

## Argymhellion:

- Cynyddu'r nifer o ddehonglwyr BSL sydd ar gael ledled Cymru.
- Darparu cymorth i'r holl oroeswyr, beth bynnag yw eu statws mewnfudo.
- Cyllido sefydliadau 'ar gyfer a gan' er mwyn ymateb yn well a chefnogi cymunedau ymyledig.



50 "An isolated place": LGBT+ domestic abuse survivors' access to support | Galop
51 FINAL-living-in-a-hostile-environment-for-Web-and-sharing-.pdf
52 Understanding-Forced-Marriage_English-Welsh-October-2023.pdf
53 Migrant survivors | Domestic Abuse Commissioner

# Dull Gweithredu Technolegol



Roedd Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 yn gyfle gwych i sicrhau bod mannau ar-lein yn fwy diogel i oroeswyr. Roedd y Ddeddf yn gosod mesurau diogelwch newydd i oedolion a phlant sy'n defnyddio gwasanaethau ar-lein megis cyfryngau cymdeithasol a pheiriannau chwilio. Roedd y darpariaethau hefyd yn gymwys i wasanaethau canfod cymar a negeseuon gwib. Sefydlwyd cyfres o droseddau newydd gan gynnwys seiberfflachio, cyfathrebu bygythiol a cham-drin gan ddefnyddio delweddau personol. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn ddiffygiol ac eisoes ar ei hôl hi yn nhermau trais newydd ar sail rhywedd wedi'i hwyluso gan dechnoleg. Ni chafodd ffugiadau dwfn eu cynnwys yn y ddeddf ac nid yw Llywodraeth y DU yn mynd i'r afael â mathau o AI cynhyrchiol sydd yn gynyddol realistig. Mae camerâu cudd a elwir yn "gamerâu ysbio" ar gael yn rhwydd ar-lein ac yn gallu ffrydio i gynulleidfa eang.

Ers cyflwyno Deddf Diogelwch Ar-lein y Deyrnas Unedig 2023, rydym eisoes wedi wynebu heriau o ran ymarferoldeb deddfu ar gyfer y gofod ar-lein. Yn ôl y ddeddfwriaeth rhaid i'r rheini sy'n darparu cynnwys pornograffig ddefnyddio "mesurau hynod o effeithiol o sicrhau oedran". Cyhoeddodd OFCOM, y sefydliad sy'n rheoli'r darparwyr hyn, lythyr agored ym mis Tachwedd 2024 yn atgoffa platfformau AI cynhyrchiol o'u hymrwymiadau dan y ddeddf. Yn y gorffennol rydym hefyd wedi gweld bod modd osgoi'r mesurau sicrwydd oedran "hynod effeithiol" hyn drwy ddefnyddio afatarau cymeriadau gêm.  Maellawer o safleoedd â chynnwys pornograffig yn defnyddio AI yn unig ar gyfer amcangyfrif oedran heb fod angen unrhyw brawf cyfreithiol o hunaniaeth. Mae'n wybyddus hefyd y gall defnyddwyr osgoi ysgogiadau dilysu oedran yn y DU drwy ddefnyddio rhwydweithiau preifat rhithwir sy'n twyllo'r rhwydweithiau cyhoeddus i feddwl bod y defnyddiwr yn cysylltu â'r rhyngrwyd mewn gwlad arall.

Mae angen i lunwyr polisïau a'r corff deddfu beidio â dibynnu ar y bobl sy'n rheoli safleoedd i ddiogelu a safoni defnyddwyr. Nid yw goroeswyr cam-drin gan ddefnyddio delweddau personol heb gydsyniad, ffugiadau dwfn a phersonadu yn gallu aros i'r rheini sy'n rheoli'r platfformau hyn fynd i'r afael yn iawn â mesurau diogelu go iawn sy'n gweithio. Mae cynlluniau wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Troseddu a Phlismona, ond mae menywod ledled y byd yn ddioddef canlyniadau ffugiadau dwfn. Rhaid i ddeddfwyr ddysgu yn sgil y Ddeddf Diogelu Ar-lein a chaniatáu darpariaeth ar gyfer technolegau newydd, ynghyd â darparu ar gyfer rheoleiddio, monitro allanol a gorfodi.

> “Mae deddfwyr eisoes ar ei hôl hi o ran trais yn seiliedig ar rywedd a hwylusir gan dechnoleg. Os nad ydyn ni’n mynd i’r afael â hyn nawr, byddwn yn gadael goroeswyr yn agored i niwed mewn gofod ar-lein sy’n aml yn cael ei osod ‘ar wahân’ i’r byd ‘real’. Mae trais yn seiliedig ar rywedd a hwylusir gan dechnoleg yn cael llawn cymaint o effaith ar fywydau â mathau eraill o VAWDASV. Fyddem ni ddim yn caniatáu i geir anniogel barhau ar y ffyrdd - rhaid i ni beidio â chaniatáu i raglenni anniogel barhau i amharu ar fywydau ar draws y byd”.
>
> **Stephanie Grimshaw**
> **Pennaeth Materion Cyhoeddus a Chyfathrebu**

Gall y cyfryngau cymdeithasol fod yn lle gwych i greu cymunedau a mwynhau diddordebau gyda phobl eraill. Gallant hefyd fod yn offer ar gyfer dysgu a chynnig mynediad at gymorth i oroeswyr. Mae tudalennau cyfryngau cymdeithasol Cymorth i Ferched Cymru’n cynnig adnoddau a gwybodaeth ac yn codi lleisiau ledled y sector. Fodd bynnag, gall y cyfryngau cymdeithasol hefyd ddarparu llwybrau ar gyfer stelcio digidol, aflonyddu a mathau eraill o reolaeth drwy orfodaeth. Rhaid i ddefnyddwyr gael yr offer i allu teilwra eu profiad eu hunain ar y cyfryngau cymdeithasol. Erbyn i’r niwed gael ei achosi gan dechnoleg, mae eisoes yn rhy hwyr. Mae dirfawr angen cyflwyno deddfwriaeth i reoli meddalwedd ar ôl iddo gael ei gyhoeddi, ond yr ymarfer gorau fyddai cynllunio apiau a rhaglenni sydd eisoes yn ddiogel. Mae angen i breifatrwydd defnyddwyr fod yn ddiofyn ac yn rhan gynhenid o gynllunio apiau.

## Argymhellion:

- Diwygio’r Ddeddf Diogelwch Ar-lein ar unwaith i gynnwys meddalwedd ‘noethi’.
- Sicrhau bod OFCOM yn gosod dirwyon ar unrhyw gwmnïau sy’n torri unrhyw fesurau diogelu a osodwyd yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein.



# Casgliad: Dull Gweithredu Systemau Cyfan



Ystyrir mai'r system cyfiawnder troseddol yw'r ateb naturiol i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Fodd bynnag, er bod atebolrwydd yn angenrheidiol, mae dibynnu ar y system cyfiawnder troseddol yn unig yn golygu caniatáu i VAWDASV ddigwydd. Mae'r ateb hwn hefyd yn cyfyngu. Mae'r fframio cul yn anwybyddu dulliau a all wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Dulliau ledled y system gyfan sy'n cwrdd â goroeswyr yn y lle maen nhw, yn hytrach nau'n gosod mewn jigso toredig â darnau coll.

Os ydym ni'n ystyried goroeswyr ym mhob agwedd ar eu bywyd ac nid eu profiadau o VAWDASV yn unig, gallwn fynd ati'n gynaliadwy ac yn gynhwysfawr i greu Cymru sy'n dileu rhwystrau yn lle eu creu nhw. Pan fydd y systemau i gyd yn ymwybodol o'u lle yn y frwydr yn erbyn yr epidemig sy'n wynebu goroeswyr, gall gwasanaethau arbenigol ganolbwyntio ar y gwaith sydd yn wirioneddol helpu goroeswr i ddechrau teimlo'n ddiogel ac yn saff.

Mae ein haelod-wasanaethau'n brwydro i lywio drwy'r cymorth sydd ar gael yng nghanol argyfwng tai, argyfwng iechyd, argyfwng costau byw ac argyfwng cyllido. Mae angen i adrannau a sefydliadau'r wladwriaeth sicrhau eu bod yn chwarae eu rhan. Mae profiadau o drais yn erbyn menywod a merched yn aml yn croestorri gyda digartrefedd, iechyd gwael ac ansicrwydd. Pan fydd gwasanaethau arbenigol yn profi pwysau o ganlyniad i fethiannau systematig, mae'n tanseilio'r sefydlogrwydd y mae goroeswyr yn dibynnu arno.

Heb ddull cydlynol lle mae VAWDASV yn broblem sy'n eiddo i bawb, ni fydd goroeswyr yn gweld diwedd i'w dioddefaint. Lle mae systemau'n gweithredu mewn seilo, caiff goroeswyr eu gorfodi i lywio llwybrau cymhleth llawn trawma. Pan fydd systemau'n gweithio gyda'i gilydd ac yn addasu i brofiadau o VAWDASV, gall ymatebion fod yn gefnogol yn hytrach nag yn rhwystrol.

Os nad ydym ni'n mynd i'r afael â phroblemau systematig, y goroeswyr yw'r rhai a fydd yn dioddef ymhellach. Caiff goroeswyr eu gadael i lywio drwy'r systemau hyn, yn aml ar eu pen eu hunain a heb dderbyn dealltwriaeth o du trefniadaeth berthnasol y llywodraeth. Ni ellir dibynnu ar y gwasanaethau arbenigol i greu newid, rhaid iddo fod o fewn cyrraedd i bob un ohonom. Mae gwasanaethau arbenigol wedi dweud wrthym dro ar ôl tro bod polisi gwael a diwygio deddfwriaethol nad yw'n ystyried y gwaith y maen nhw'n ei ddarparu wedi cael effaith niweidiol ar oroeswyr. Os byddwn ni'n gosod anghenion y goroeswr a gwasanaeth arbenigol yn y canol wrth gynllunio a darparu gwasanaeth, gallai Cymru fod ar flaen y gad gyda dull gweithredu systemau cyfan sy'n gosod y safon.

# Diolchiadau

Hoffai Cymorth i Ferched Cymru ddiolch i'r holl oroeswyr, gwasanaethau arbenigol a staff sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn. Heboch chi, ni fyddem hyd yn oed wedi gallu dechrau mynd i'r afael â'r dasg enfawr hon.

Rydym ni'n ddiolchgar i'r holl oroeswyr rydym ni'n gweithio gyda nhw o ddydd i ddydd, mae eich lleisiau'n ganolog yn y gwaith hwn ac yn parhau i ffurfio ein dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen i greu newid ystyrlon sy'n para.

Hoffem ddiolch i'n haelod-wasanaethau am eu hymrwymiad, angerdd ac eiriolaeth barhaus, yn aml yn wyneb pwysau sylweddol ac adnoddau cyfyngedig. Mae eich ymroddiad yn sicrhau nad yw goroeswyr yn wynebu hyn ar eu pen eu hunain.

Yn olaf, hoffem gydnabod pawb sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus sy'n ymdrechu i ddeall ac addasu i trais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Dim ond drwy rannu cyfrifoldeb a chydweithio y gellir sicrhau cynnydd.

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr adroddiad, cysylltwch â press@welshwomensaid.org.uk.**



# Taflen Ystadegau Cyflwr y System

Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi darparu Taflen Ffeithiau sy'n cynnwys yr holl ddata a geir yn yr adroddiad Cyflwr y System. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â press@welshwomensaid.org.uk.

## Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu


Niferoedd Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu ar draws GIG Cymru:

- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys 69.0% o staff gofal iechyd.
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe 13.45% o staff gofal iechyd.
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda 56.61% o'r holl grwpiau staff.
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2.77% o'r holl grwpiau staff.
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg 74.72% o'r holl grwpiau staff.
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Yn anffodus nid oedd yn ymwybodol bod hyfforddiant Gofyn a Gweithredu ar gael.

## Anghenion cymorth ychwanegol a gwrthod lloches

- Mae menywod byddar hyd at dair gwaith yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig.
- Mae 22 o fenywod byddar mewn perygl o ddioddef cam-drin domestig bob dydd ac adroddodd 27.5% o oedolion byddar eu bod wedi cael eu cam-drin yn emosiynol yn ystod eu bywyd.
- Ni wnaeth 61% o oroeswyr LHDT+ geisio cymorth gan wasanaethau yn dilyn achos penodol o gam-drin gan aelod o'r teulu neu bartner/cynbartner.
- Ymhlith goroeswyr oedd wedi profi cam-drin domestig cyn iddynt fod yn 18 oed, roedd 19.7% wedi profi cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o'u cymharu â 6.1% o'r rheini nad oedd wedi profi cam-drin rhywiol yn blentyn.
- Ym mlwyddyn ariannol 24-25, cafodd 51.8% o atgyfeiriadau newydd i lochesi eu gwrthod.

## Rhesymau dros wrthod lloches ym mlwyddyn ariannol 24-25





- 15.5% oherwydd anghenion y goroeswr o ran defnydd o gyffuriau ac alcohol.
- 16.3% oherwydd bod y gwasanaeth yn methu â chefnogi iechyd meddwl y goroeswr.
- 6.1% yn methu â diwallu anghenion hygyrchedd oherwydd anabledd.

Anghenion ychwanegol goroeswyr mewn lloches ym mlwyddyn ariannol 24-25


- Roedd angen cymorth ychwanegol ar 53.8% o oroeswyr mewn perthynas ag iechyd meddwl.
- Roedd angen cymorth ychwanegol ar 6.8% o oroeswyr mewn perthynas â chamddefnyddio alcohol, a 7.9% angen cymorth mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau.
- Roedd angen cymorth ychwanegol ar 43.4% o oroeswyr yn y gwasanaethau trais rhywiol mewn perthynas ag iechyd meddwl.
- Roedd angen cymorth ychwanegol ar 10.3% o oroeswyr yn y gwasanaethau trais rhywiol mewn perthynas â chamddefnyddio alcohol, gyda 8.8% angen cymorth mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau.
- Roedd gan 100% o oroeswyr yn y gwasanaethau cam-fanteisio rhywiol anghenion ychwanegol mewn perthynas ag iechyd meddwl.
- Roedd angen cymorth ychwanegol ar 52.5% o oroeswyr yn y gwasanaethau cam-fanteisio rhywiol mewn perthynas â chamddefnyddio alcohol, gyda 82% ag anghenion ychwanegol mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau.
- Roedd gan 26.2% o oroeswyr yn y gwasanaethau cam-fanteisio rhywiol anghenion cymorth mewn perthynas ag anabledd dysgu.

Y ganran o oroeswyr a ymgysylltodd â gwasanaethau cymorth oedd yn uniaethu'n berson anabl ym mlwyddyn ariannol 24-25:





- Lloches: 43.9%
- Gwasanaethau cymunedol: 22.4%
- Gwasanaethau trais rhywiol: 46.1%
- Gwasanaethau cam-fanteisio rhywiol: 72.0%

Canran o atgyfeiriadau lloches newydd a gafodd eu gwrthod:



## Iechyd meddwl

- 1 fenyw mewn 8 yn ceisio cymryd eu bywyd eu hunain o ganlyniad i brofi cam-drin domestig.
- Mae 33% o fenywod sy'n cael eu treisio yn ystyried hunanladdiad.
- Mae 13% yn ceisio lladd eu hunain.
- Roedd y nifer o hunanladdiadau tybiedig yn dilyn trais domestig (n=354) yn uwch na'r nifer a laddwyd drwy drais gan bartner agos (n=332) rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2024. Mae hyn hefyd yn wir am flwyddyn ariannol 22/23 a blwyddyn ariannol 23/24.



## Camddefnyddio sylweddau

- Mae'r set data diweddaraf yn 2024 yn dangos bod gan Gymru a Lloegr y nifer uchaf o farwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau ar gofnod (5,565 marwolaeth yn 2024).
- Roedd y gyfradd marwolaeth fenywaidd yn y DU yn gysylltiedig â marwolaethau drwy wenwyn cyffuriau 14% yn uwch na chanolrif gwledydd cyffelyb.
- Roedd yn agos i 50% o fenywod a ddatblygodd PTSD yn dilyn cael eu hamlygu i VAWDASV hefyd yn datblygu anhwylderau defnyddio sylweddau.
- Mewn achosion MARAC, roedd camddefnyddio sylweddau yn ffactor risg i 81% o oroeswyr.

## Cynllun Cyflenwi camddefnyddio sylweddau Llywodraeth Cymru

- Nod y cynllun oedd cyflawni amser aros o 20 diwrnod gwaith rhwng atgyfeirio a thriniaeth.
- Roedd 7.9% o gleientiaid yn gorfod aros rhwng pedair a deuddeg wythnos.
- O ran canlyniad, dim ond 15% o achosion a gafodd eu cau am fod y cleient wedi cwblhau'r driniaeth.



## Arian a'r gweithle

- Mae'r mwyafrif o aelwydydd yn y DU yn profi costau byw uwch (61%).
- Mae 96.4% o oroeswyr yn profi costau byw uwch.
- Mae 1 fenyw mewn 7 yn y DU wedi profi cam-drin economaidd gan bartner cyfredol neu gyn-bartner.
- Dim ond 17% o daliadau a wneir yn enw'r menywod mewn cyfrifon banc ar y cyd.
- Mae Surviving Economic wedi argymell y dylai hyn gyfrif at o leiaf £2 miliwn o gyllid.
- Mae 21% o fenywod cyflogedig yn cymryd amser yn rhydd o'r gwaith oherwydd cam-drin domestig ac mae 2% yn colli eu swyddi o ganlyniad uniongyrchol i gael eu cam-drin.
- Mae pedair o bob pum menyw wedi profi aflonyddu rhywiol yn y gweithle ei hun.

## Tai

- Canfu Shelter Cymru fod mwy na 94,000 o aelwydydd yn aros am dai cymdeithasol, a gyda'r cyfraddau cyflenwi presennol, byddai'n cymryd dros 35 mlynedd i ddarparu'r cartref sydd ei angen ar bob aelwyd ar y rhestr aros.
- Dywedodd 32% o fenywod digartref bod cam-drin domestig wedi cyfrannu at eu digartrefedd.
- Mae 88% o'n aelod-wasanaethau'n teimlo bod yr argyfwng tai'n cael effaith ar y gefnogaeth sydd ar gael i oroeswyr.
- Ym mlwyddyn ariannol 2022-2023, roedd 117 o oroeswyr yng Nghymru mewn lloches am fwy na chwe mis.
- Rhagwelir y bydd targed o 20,000 o dai cymdeithasol newydd erbyn 2026 yn cael llwyddiant o 93% yn unig.
- Ym mlwyddyn ariannol 2024-25, roedd 3% o'r holl alwadau gan oroeswyr yn gofyn am gymorth gyda llety argyfwng (nid lloches) a 2% yn gofyn am lety nad oedd yn argyfwng.
- Mae 17% o oroeswyr yn gofyn i gael eu cyfeirio at loches gan Linell Gymorth Byw Heb Ofn, gyda 3% arall angen atgyfeiriadau lloches uniongyrchol gan y llinell gymorth ei hun.
- Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2024-25), roedd 75 o oroeswyr yng Nghymru mewn llety lloches am fwy na chwe mis.




Cymorth i Ferched Cymru

Tŷ Pendragon, Caxton Place,
Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE

02920 541 551
info@welshwomensaid.org.uk


Dilynwch ni:
@welshwomensaid

www.welshwomensaid.org.uk


Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif 1140962 a yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, rhif 07483469.


Llinell Gymorth Byw Heb Ofn | Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800 convo
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First